***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Parhad: cyffredinol**

**3.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i'r graddau y mae swyddogaeth, sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru o 21 Medi 2015 ymlaen ("y swyddogaeth newydd") yn cyfateb i swyddogaeth a oedd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan Ran 5 o Ddeddf 1997 cyn y dyddiad hwnnw ("yr hen swyddogaeth").

(2) Mae unrhyw beth sydd wedi ei wneud, neu sydd heb ei wneud, cyn 21 Medi 2015 gan neu mewn perthynas â Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r hen swyddogaeth i gael ei drin, o'r dyddiad hwnnw, fel pe bai wedi ei wneud, neu i gael ei barhau, neu heb ei wneud, gan neu mewn perthynas â Chymwysterau Cymru mewn cysylltiad â'r swyddogaeth newydd.

(3) O 21 Medi 2015 ymlaen, caiff Cymwysterau Cymru gymryd camau mewn cysylltiad â'r swyddogaeth newydd sy'n ymwneud ag amgylchiadau sy'n digwydd cyn y dyddiad hwnnw fel pe bai'r swyddogaeth newydd wedi bod mewn grym pan ddigwyddodd yr amgylchiadau a arweiniodd at ei harfer ac felly, o'r dyddiad hwnnw ymlaen, ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd camau mewn cysylltiad â'r hen swyddogaeth.

(4) Yn unol â hynny, i'r graddau y bo'n angenrheidiol i roi effaith i baragraffau (1) i (3), mae cyfeiriadau at Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru (ym mha fodd bynnag y'u disgrifir) a'r hen swyddogaeth mewn dogfen sy'n ymwneud â'r hen swyddogaeth, a chyfeiriadau sy'n cymryd effaith fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru (ym mha fodd bynnag y'u disgrifir) a'r hen swyddogaeth mewn dogfen o'r fath i gael eu darllen, o 21 Medi 2015 ymlaen, fel cyfeiriadau at Gymwysterau Cymru a'r swyddogaeth newydd.

(5) Mae paragraffau (1) i (4) yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

(6) At ddibenion paragraff (1), nid yw gosod cosb ariannol o dan adran 38(1) neu (2) o'r Ddeddf yn swyddogaeth sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru o 21 Medi 2015 ymlaen.